




Ffenestr gan C.E. Kempe

Roedd Cadog yn sant pwysig o'r chweched ganrif, y dywedir iddo fod yn sylfaenydd cymuned Gristnogol yn Llancarfan, Morgannwg a oedd â dylanwad eang, a cheir llond llaw o eglwysi yng ngogledd Sir Fynwy wedi eu henwi ar ei ôl, fwyaf tebyg wedi eu sefydlu gan ei ddisgyblion. Un ohonynt yw "Llangatwg Feibion Afel" – yn golygu yn fras eglwys Cadog o rodd meibion Afel. Nid oes dim ar ôl o'r sefydliad cynnar hwn, ond wedi i'r Normaniaid ymsefydlu yng Ngwent yn yr unfed ganrif ar ddeg, daeth yr eglwys yn eiddo i'r priordy Benedictaidd yn Nhrefynwy, ac felly y bu hyd Ddiddymiad y Mynachlogydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Nid oes amheuaeth i eglwys Cadog gael ei hailadeiladu gan y priordy, ond heddiw dim ond y tŵr de-orllewinol trawiadol o c.1300, sydd hefyd yn gweithredu fel porth a phrif fynedfa, sydd yn dyddio o'r blynyddoedd hynny.



Cerfwaith gan arlunydd gwlad lleol

Yr eglwys Fictorianaidd

Ailadeiladwyd bron bob rhan o'r eglwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dan arweiniad y teulu Rolls, prif dirfeddianwyr y plwyf, ac yn enwedig dan arweiniad John Etherington Rolls, a'i fab, Arglwydd 1af Llangattock. Yn 1852–3, cyflogodd John Rolls T.H. Wyatt i adnewyddu ac ymestyn yr eglwys, ac yn 1875 galwodd Arglwydd Llangattock unwaith eto ar Wyatt i wneud gwaith mawr ychwanegol, gan gynnwys adeiladu'r ystlys ogleddol. Nid arbedwyd unrhyw gost, ac o ganlyniad mae'r eglwys heddiw yn drysorfa o gynllunwaith a chreffftwaith Fictorianaidd. Er enghraifft, yn 1866 addurnwyd y tu mewn yn helaeth gan Cox & Sons, ond mae'n amlwg i Wyatt newid ei feddwl, ac yn 1875 gorchuddiwyd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, i wneud iawn am hyn, mae gennym wrthgefn a sgrin gangell alabastr Thomas Earp, a gwydr lliw gan artistiaid Fictorianaidd blaenllaw a chwmnïau ar uchafbwynt eu grym; y ffenest ddwyreiniol o'r Croeshoeliad, gan Lavers & Barraud, a'r ffenestr orllewinol odidog gan C.E. Kempe, yn darlunio cerddorfa o angylion, bob un yn chwarae offeryn gwahanol. Ceir hefyd ffenestri gan Heaton, Butler & Bayne (1866), a gwaith diweddarach gan Kempe, a Powell's (Whitefriars). Yn gyffredinol yr argraff a geir o'r tu mewn yw un o eglwys sydd yn ymgorffori egwyddorion Mudiad Rhydychen a'r Ecclesiological Society. Hefyd, ni ddylai unrhyw ymwelydd fethu'r casgliad yn y porth a'r festri o gerrig beddi gan arlunwyr gwlad o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif a ddiogelwyd yn ofalus, ac sy'n dangos amrywiaeth syfrdanol o ddylunwaith ac arddull.



Ffenestr gan Heaton, Butler & Bayne



Ffenestr gan Powell's (Whitefriars)

Charles Stewart Rolls

Mae un coflech arbennig yn y gangell sydd â phwysigrwydd hanesyddol. Mae'n cofnodi marwolaeth yn 1910 yr Anrhydeddus Charles Stewart Rolls, mab Arglwydd Llangattock, a chyd-sefydlydd, gyda Henry Royce, cwmni Rolls-Royce, a gynhyrchodd ei gar modur cyntaf yn 1902. Roedd Rolls yn awyrennwr arloesol, y dyn cyntaf i wneud hedfaniad dwbl heb stop dros y Sianel. Ef hefyd oedd yr awyrennwr Prydeinig cyntaf i gael ei ladd mewn cwmpiad, yn ystod sioe awyr ym mis Gorffennaf 1910, pan dorodd cynffon ei awyren i ffwrdd. Mae wedi ei gladdu, gydag aelodau eraill o'r teulu, yma ym mynwent Llangattock, eu beddau wedi eu nodi â chroesau Celtaidd.



Bedd C.S. Rolls

Eglwysi cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

Santes Fair, Llanfair Cilgedin Ar lan yr afon Wysg. Enwog am ei phaneli sgraffiti yn dangos y Benedicite wedi ei osod yn y tirwedd lleol, gan Heywood Sumner. Ein heglwys mwyaf poblogaidd. Yn denu cannoedd o ymwelwyr bob blwyddyn (i gael mynediad cysylltwch â'r swyddfa).

Dewi Sant, Llangyfiw Heb fod ymhell o Frynbuga. Y rhan fwyaf o'r 15fed ganrif, gyda sgrin a lloft y grog. Seddi, pulpud a sedd yswain fawr yn waith aruchel o'r ddeunawfed ganrif. Anghysbell a heddychlon (ar agor yn ddyddiol).



Sant Michael a'r Holl Angelion, Gwernesni Eglwys rhestredig Gradd 1 o'r 13eg ganrif. Yn fewnol, mae sgrin o'r 15fed ganrif yn dominyddu tu mewn a gafodd ei atgyweirio yn ysgafn gan J.P. Seddon. Dywedir mai yma mae'r clychau hynaf yn Sir Fynwy (ar agor yn ddyddiol).



Sant Sierôm, Llangwm Uchaf Eglwys ganoloesol gan mwyaf wedi ei hatgyw eirio gan J.P. Seddon 1863-9. Pwysig am y sgrin drawiadol o c.1500, ei wydr Arts and Crafts a'r teils llawr cymhleth (ar agor yn ddyddiol).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgychu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn derbyn tri cylchlythyr bob blwyddyn, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiau, cyfarfodydd, llyfrau; a'r Trafodion blynyddol.

Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, St Ann's Vestry Hall, 2 Church Entry, London EC4V 5HB. Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

<http://www.friendsoffriendlesschurches.org.uk>

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097



FRIENDS OF
FRIENDLESS CHURCHES



FRIENDS OF
FRIENDLESS CHURCHES



Eglwys Sant Cadog
Llangatwg
Feibion Afel
cyflwyniad i'w hanes